



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o ymatebion

Strategaeth Ryngwladol

Tachwedd 2019

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

Cynnwys

1. Ymarfer Ymgynghori	3
Gwybodaeth Gefndir.....	3
Ymgynghoriad Cyhoeddus	3
Cwestiynau'r Ymgynghoriad	3
2. Ymatebion i'r Ymgynghoriad	5
Cwestiwn 1	5
Cwestiwn 2	6
Cwestiwn 3	8
Cwestiwn 4	9
Ymateb Llywodraeth Cymru a'r Camau Nesaf	11
Atodiad A	12

1. Ymarfer Ymgynghori

Gwybodaeth Gefndir

Yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hagenda ryngwladol: 'Cymru yn y Byd'. Ers hynny, mae'r dirwedd ryngwladol wedi newid yn sylweddol, gan greu'r angen am strategaeth newydd sy'n cyflwyno gweledigaeth ryngwladol ar gyfer Cymru.

Wrth i'r DU symud tuag at y dyddiad gwreiddiol ar gyfer ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Mawrth 2019), ym mis Rhagfyr 2018, crëwyd portffolio gweinidogol newydd ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol i gydnabod pwysigrwydd dull trawslywodraethol cydgysylltiedig a darparu ffocws i weithgarwch rhyngwladol Cymru y tu mewn i'r llywodraeth ac ar gyfer ein partneriaid a'r gymdeithas ddinesig ehangach. Ar ôl creu'r portffolio hwn, ymgysylltodd Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i ddatblygu a llywio ei safbwyntiau ar y strategaeth ddrafft, gan arwain at gyhoeddi dogfen ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ym mis Gorffennaf 2019.

Mae ansicrwydd parhaus Brexit, y diffyg eglurder ar berthynas Cymru â'i chymdogion agosaf a'r trafodaethau diddiwedd bron ynghylch ymadael â'r UE wedi arwain at oedi ac anhawster sylweddol o ran drafftio'r strategaeth ryngwladol. Roedd yr ymgynghoriad yn awyddus i glywed barn pobl am ymagwedd arfaethedig Llywodraeth Cymru at ryngwladoli ac, yn benodol, tri nod allweddol i gyflawni ei dull newydd. Fodd bynnag, ni osododd dargedau cyflawni pendant gan y teimlwyd bod hyn yn rhy anodd o ystyried y ffaith bod yr amgylchedd gwleidyddol ac economaidd yn newid yn barhaus.

Adeg ei chyhoeddi, cydnabu'r strategaeth ddrafft y byddai'n rhaid i'r Strategaeth Ryngwladol fod â rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn ymateb i gytundeb terfynol y DU gyda'r Undeb Ewropeaidd. Credwyd y byddai'r cytundeb terfynol yn hysbys i ni adeg cyhoeddi'r strategaeth ddrafft, gan fod y DU i fod i ymadael â'r UE ar 31 Hydref 2019; fodd bynnag, adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'n ymddangos erbyn hyn y byddwn ni'n ymadael ar 31 Ionawr 2020 neu gynt. Felly, bydd rhaid i'r un meini prawf a hyblygrwydd fod yn berthnasol i fersiwn gyhoeddedig o'r Strategaeth Ryngwladol.

Ymgynghoriad Cyhoeddus

Lansiwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar y Strategaeth Ryngwladol ar 31 Gorffennaf 2019, a daeth i ben ar 23 Hydref 2019. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru, cafodd sylw mewn cylchlythyrau a chyhoeddwyd negeseuon atgoffa trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Roedd yr ymgynghoriad yn awyddus i gael barn pobl am dri nod allweddol a sut y gallent gyflawni uchelgeisiau rhyngwladol Cymru.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Gofynnwyd i ymatebwyr ystyried y cwestiynau canlynol:

Cwestiwn 1

Y tri **nod** a osodir yn y strategaeth yw:

- codi proffil rhyngwladol Cymru

- cynyddu allforion a mewnfuddsoddiadau
- amlygu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

- a) Ydych chi'n cytuno â'r nodau hyn?
- b) Oes unrhyw nodau eraill a ddylai gael eu hystyried?

Cwestiwn 2

Pobl – mae'r strategaeth yn amlygu'r rôl bwysig y gall ein pobl a'n sefydliadau diwylliannol, yng Nghymru a thros y môr, ei chwarae i godi proffil rhyngwladol Cymru.

- a) Ydych chi'n cytuno â'r uchelgais a nodir yn y bennod hon?
- b) Ydych chi'n credu y bydd yn cyflawni'r nod allweddol o godi proffil rhyngwladol Cymru?

Cwestiwn 3

Cynhyrchion - mae gan Gymru berthynas fasnachol fyd-eang gref o ran allforio a denu mewnfuddsoddiadau. Mae'r strategaeth yn nodi cynlluniau i arddangos arbenigedd Cymru ym maes seiberddiogelwch, lled-ddargludyddion cyfansawdd a ffilm a theledu er mwyn dangos bod gennym economi modern a bywiog. Bydd hyn, yn ei dro, yn gwella'n harlwy ehangach o ran allforion a mewnfuddsoddiadau i weddill y byd.

- a) Ydych chi'n cytuno y bydd amlygu'r meysydd hyn yn dangos bod gan Gymru economi modern, bywiog a gweithlu medrus?

Cwestiwn 4

Lle - mae diwylliant ac iaith Cymru wedi cyfrannu at dwristiaeth ryngwladol a mwy o gydnabyddiaeth fel cyrchfan i ymwelwyr. Yn y strategaeth hon, rydym wedi nodi bod angen hybu twristiaeth gynaliadwy fel blaenoriaeth. Mae Cymru hefyd wedi dangos ymrwymiad i gyfrifoldeb byd-eang drwy ei rhaglen Cymru o blaid Affrica a'n Byrddau lechyd.

- a) Ydych chi'n cytuno y bydd yr uchelgais a nodwyd yn y strategaeth yn hybu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang ac yn amlygu'n hymrwymiad i gynaliadwyedd?

2. Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Cafwyd 110 o ymatebion i'r ymgynghoriad.

Nid yw pob ymatebydd wedi caniatáu i ni gyhoeddi eu manylion ond, lle'n briodol, mae rhestr o ymatebwyr yn Atodiad A.

Dyweddod y rhan fwyaf o'r ymatebion a nododd leoliad eu bod nhw o Gymru neu'r DU. O'r chwe ymateb a gafwyd o'r tu allan i'r DU, roedd dau o UDA a'r gweddill o Awstralia, Gwlad Belg, Canada a Ffrainc.




Cwestiwn 1

Y tri **nod** a osodir yn y strategaeth yw:

- codi proffil rhyngwladol Cymru
- cynyddu allforion a mewnfuddsoddiadau
- amlygu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

a) Ydych chi'n cytuno â'r nodau hyn?

Atebodd 94% o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn.

			Canran yr Ymatebwyr	Cyfanswm yr Ymatebwyr
1	Ydw		54.37%	56
2	Yn rhannol		41.75%	43
3	Nac ydw		3.88%	4
			wedi ateb	103
			wedi hepgor	7

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cytuno â'r nodau yn llawn neu'n rhannol. Awgrymodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r nodau yn rhannol y dylid aralleirio'r nodau neu nodau ychwanegol y gellid eu datblygu.

b) Oes unrhyw nodau eraill a ddylai gael eu hystyried?

Atebodd 82% o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn. O'r rhain, awgrymodd 67 o'r ymatebwyr nod newydd neu y dylid aralleirio nod presennol.

Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys:

- "Er bod creadigrwydd ac arloesedd wedi'u cynnwys yn Nod 1, gallai fod cyfeiriad mwy penodol at addysg a diwylliant rhyngwladol."
- "Gallai nodau gael eu cryfhau i adlewyrchu ein gwerthoedd ehangach fel cenedl. Gallai'r nod cyntaf gyfeirio at y ffaith bod diwylliant yn ganolog i Gymru, a'n bod yn defnyddio diwylliant i greu cysylltiadau."
- "Mae cyfrifoldeb byd-eang yn golygu parchu'r amgylchedd, cyfiawnder cymdeithasol a hawliau dynol. Rwy'n croesawu cynnwys hawliau dynol yn y nod hwn."

- “Nod 3 – mae llawer y gellir ei wneud yma i broffilio ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gydraddoldeb a gwaith teg, a hanes Cymru fel cenedl â chysylltiadau diwydiannol cryf.”
- “Cyflwyno Cymru fel cenedl sy’n ymwybodol o’r amgylchedd, ac arloeswr o ran lleihau’r defnydd o fagiau plastig, disodli tanwyddau ffosil ac ati.”
- “Datblygu sgiliau a hyfforddiant i bobl ifanc Cymru mewn cyd-destun rhyngwladol trwy bartneriaethau byd-eang - 'datblygu capasiti sgiliau heb ei ail'.”

Un thema gref a nodwyd gan lawer o’r ymatebwyr oedd croesawu cyfrifoldeb byd-eang, cyfrifoldeb cymdeithasol a strategaeth seiliedig ar werthoedd. Roedd llawer yn cydnabod cyfraniad a rôl y sectorau Addysg a Diwylliannol o ran cyflawni uchelgeisiau’r strategaeth, yn enwedig mewn perthynas â chefnogi datblygiad economaidd, datblygu cysylltiadau rhyngwladol trwy fyfyrwyr a sefydliadau Addysg Uwch a defnyddio myfyrwyr, diwylliant a diaspora i gefnogi ein hagenda pŵer meddal.

Mae’r ddau ymateb isod yn crynhoi safbwyntiau 23 o ymatebwyr mewn perthynas â rhoi mwy o bwyslais ar rôl Addysg a Diwylliant o ran codi proffil rhyngwladol Cymru:




- “Rydyn ni’n falch o weld bod y strategaeth yn cydnabod rôl addysg uwch o ran llywio a datblygu proffil rhyngwladol Cymru, ond credwn y gallai hyn fod yn gryfach yn y strategaeth drwyddi draw. Mae prifysgolion Cymru yn rhoi cyfle i gryfhau ac ymestyn presenoldeb rhyngwladol Cymru, a’i heffaith, gan eu bod yn sefydliadau â chysylltiadau byd-eang, gyda chysylltiadau ymchwil yn ymestyn dros y byd i gyd, gan ddenu myfyrwyr o dramor.”
- “Diwylliant yw un o adnoddau pŵer meddal mwyaf arwyddocaol Cymru, ac mae’n gymhwysedd datganoledig. Yn ogystal â hyrwyddo hyn yn rhyngwladol, dylai’r llywodraeth wneud mwy o ymdrech i ddatblygu’r ymdeimlad hwn o unigrywiaeth yn fewnol ymhlith pobl Cymru, fel nad yw diwylliant yn ymarfer marchnata yn unig, ar wahân i brofiadau Cymreig go iawn. Dylai fod mynegiant amlycach o straeon Cymru i gyfathrebu’r hyn sy’n gwneud y genedl yn unigryw: ei gwerthoedd, cymuned a chynefin, ei henw da fel gwlad barddoniaeth a chân, a’i dwy iaith.”

Cwestiwn 2

Pobl – mae'r strategaeth yn amlygu’r rôl bwysig y gall ein pobl a’n sefydliadau diwylliannol, yng Nghymru a thros y môr, ei chwarae i godi proffil rhyngwladol Cymru.

- a) Ydych chi’n cytuno â’r uchelgais a nodir yn y bennod hon?

Atebodd 89% o’r ymatebwyr y cwestiwn hwn.

			Canran yr Ymatebwyr	Cyfanswm yr Ymatebwyr
1	Ydw		35.71%	35
2	Yn rhannol		60.21%	59
3	Nac ydw		4.08%	4
			wedi ateb	98
			wedi hepgor	12

Roedd 96% o'r rhai a ymatebodd yn cytuno'n llawn neu'n rhannol y byddai'r uchelgeisiau a nodir yn y bennod Pobl yn helpu i gyflawni'r tri nod. Cynigiodd 66 o'r ymatebwyr safbwyntiau ar sut y gellid cyflawni hyn, gydag amryw o'r ymatebwyr yn nodi bod diaspora – yng Nghymru a thramor – yn ased allweddol ac y gallai'r defnydd o ddiaspora a chyn-fyfyrrwyr gael ei gryfhau yn y strategaeth derfynol.




- “Dylai amrywiaeth diaspora yng Nghymru gael ei chydabod, a dylid dathlu'r gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud ym maes Datblygiad Rhyngwladol.”
- “Nid yw potensial diaspora'n cael digon o sylw. Dylai'r strategaeth gydnabod rôl diaspora a chyn-fyfyrrwyr yn ddigonol a sut y gallan nhw gefnogi Cymru mewn rôl lysgenhadol.”
- “Rydyn ni'n teimlo bod y diffiniadau'n rhy gul ac nad ydyn nhw'n cynnwys gweithgarwch dyngarol y Cymry ar wasgar. Credwn nad yw hyn yn fwriadol, ar rydyn ni'n cynnig y dylai'r iaith gael ei hadolygu i sicrhau bod ein strategaeth yn croesawu aelodau diaspora sydd eisieu gwneud cyfraniad neu gymryd rhan mewn gweithgarwch dyngarol yng Nghymru. Gellid gwneud hyn trwy ehangu'r term 'sefydliadau diwylliannol' i 'sefydliadau diwylliannol a chymunedol/trydydd sector/elusennol'.”
- “Mae yna fwlch yn yr adran 'pobl' yn ymwneud â'r diaspora yng Nghymru. Pan bwysleisir hanes mudo o Gymru, mae'n gyfle hefyd i esbonio'r ymfudo hanesyddol i Gymru a'i rhwydweithiau diaspora ffyniannus. Mae 33 o sefydliadau diaspora yng Nghymru yn cynrychioli dros 20,000 o bobl – mae llawer o'r grwpiau hyn yn ddiaspora Affricanaidd Is-Sahara. Mae'r Panel Cyngori Is-Sahara yn amcangyfrif bod tua 25,000-30,000 o ddiaspora yng Nghymru.”

Cafwyd ymateb cadarnhaol hefyd i'r iaith groesawgar a ddefnyddir yn ymwneud â chymunedau Cymru.

- “Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod ymfudwyr yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at economi Cymru ac at y gymdeithas ehangach.”
- “Rydym yn croesawu'r ffaith fod yr adran hon yn datgan nad yw'n cymeradwyo rheolaeth dynnach ar fewnfudo o'r UE, a fyddai'n niweidiol i Gymru a'i diwylliant. At hynny, rydym yn cymeradwyo'r neges glir bod Cymru'n ystyried ei hun yn genedl groesawgar a goddefgar i fewnfudwyr, gyda'r dyhead o ddod yn genedl sy'n cynnig noddfa.”

b) Ydych chi'n credu y bydd yn cyflawni'r nod allweddol o godi proffil rhyngwladol Cymru?

Atebodd 80% o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn, gyda 77 o'r ymatebwyr yn cytuno'n llawn neu'n rhannol.




			Canran yr Ymatebwyr	Cyfanswm yr Ymatebwyr
1	Ydw		31.82%	28
2	Yn rhannol		55.68%	49
3	Nac ydw		12.50%	11
			wedi ateb	88
			wedi hepgor	22

Cwestiwn 3

Cynhyrchion - mae gan Gymru berthynas fasnachol fyd-eang gref o ran allforio a denu mewnfuddsoddiadau. Mae'r strategaeth yn nodi cynlluniau i arddangos arbenigedd Cymru ym maes seiberddiogelwch, lled-ddargludyddion cyfansawdd a ffilm a theledu er mwyn dangos bod gennym economi modern a bywiog. Bydd hyn, yn ei dro, yn gwella'n harlwy ehangach o ran allforion a mewnfuddsoddiadau i weddill y byd.

a) Ydych chi'n cytuno y bydd amlygu'r meysydd hyn yn dangos bod gan Gymru economi modern, bywiog a gweithlu medrus?

Atebodd 84% o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn.

			Canran yr Ymatebwyr	Cyfanswm yr Ymatebwyr
1	Ydw		25.00%	23
2	Yn rhannol		71.74%	66
3	Nac ydw		3.26%	3
			wedi ateb	92
			wedi hepgor	18

Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno'n llawn neu'n rhannol gyda'r dewis o dair canolfan ragoriaeth, roedd cytundeb cryf bod angen mwy o eglurder ynglŷn â pham y dewiswyd y sectorau hyn. Dywedodd amryw o'r ymatebwyr hefyd y gallai'r dull hwn fod yn gyfyngol o ran denu buddsoddiad o sectorau eraill a chefnogi ymchwil a datblygu.

- "Mae amrywiaeth wych o fuddiannau ac uchelgeisiau yn cael sylw trwy'r tair enghraifft. Mae llawer mwy i Gymru wrth gwrs, a byddai'n bwysig sicrhau mai enghreifftiau yn unig yw'r sectorau hyn sydd wedi'u dewis yn dda iawn, a'n bod yn hyrwyddo ein cryfderau mewn meysydd megis gweithgynhyrchu uwch a gwyddorau bywyd."
- "Er bod y rhain yn feysydd arbenigol, maen nhw'n giplun cyfyngedig o'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig. Mae llawer o ffyrdd eraill o ddangos gweithlu modern, bywiog a

medrus nad yw'r strategaeth ryngwladol yn eu cynnwys ar hyn o bryd ac, er fy mod i'n cydnabod yr angen i ganolbwyntio, credaf y dylai'r strategaeth gynnwys yr opsiwn i feysydd heblaw seiberddiogelwch, lled-ddargludyddion cyfansawdd a ffilm a theledu gael eu defnyddio fel modd o gyflawni'r nodau strategol."

- "Rydyn ni'n croesawu cynnwys rhai meysydd ffocws, gan gynnwys y rhai a restrir, lle mae Cymru eisoes wedi creu argraff ryngwladol. Gan ragdybio y bydd y strategaeth ar waith am sawl blwyddyn, efallai y byddai'n ddefnyddiol bod yn agored i addasu a chynnwys meysydd eraill wrth i'n sectorau dyfu ac esblygu ac ar adeg o newidiadau byd-eang sylweddol."
- "Rydyn ni'n credu bod y meysydd a nodir yn hollbwysig i economi Cymru, ond ni ddylent fod ar draul sectorau allweddol eraill sy'n cyfrannu."




Yn ogystal, galwodd amryw o ymatebwyr am fwy o bwyslais ar fasnach deg, gwaith teg a chyfrifoldeb amgylcheddol i gefnogi'r gweithgarwch a gynigir yn y strategaeth ac i sicrhau bod Nodau 2 a 3 yn ategu ei gilydd yn hytrach nag yn gwrth-ddweud ei gilydd.

Cwestiwn 4

Lle - mae diwylliant ac iaith Cymru wedi cyfrannu at dwristiaeth ryngwladol a mwy o gydnabyddiaeth fel cyrchfan i ymwelwyr. Yn y strategaeth hon, rydym wedi nodi bod angen hybu twristiaeth gynaliadwy fel blaenoriaeth. Mae Cymru hefyd wedi dangos ymrwymiad i gyfrifoldeb byd-eang drwy ei rhaglen Cymru o blaid Affrica a'n Byrddau Iechyd.

- a) Ydych chi'n cytuno y bydd yr uchelgais a nodwyd yn y strategaeth yn hybu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang ac yn amlygu'n hymrwymiad i gynaliadwyedd?

Atebodd 90% o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn.

			Canran yr Ymatebwyr	Cyfanswm yr Ymatebwyr
1	Ydw		39.39%	39
2	Yn rhannol		57.58%	57
3	Nac ydw		3.03%	3
			wedi ateb	99
			wedi hepgor	11

Unwaith eto, roedd y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr yn cytuno'n llawn neu'n rhannol gyda'r nod hwn, gyda rhai ymatebwyr yn nodi nad oedd yr uchelgeisiau'n mynd yn ddigon pell i roi sylw llawn i gryfderau Cymru yn y maes hwn.

- "Rydyn ni'n croesawu'r pwyslais yn y bennod hon ar dwristiaeth gynaliadwy a pharhad gweithgarwch datblygu cynaliadwy rhyngwladol presennol trwy weithgareddau megis y rhaglen 'Cymru o Blaid Affrica'. Ar y cyfan, ein barn ni oedd y gellid cryfhau'r bennod ymhellach o ran dangos ei hymrwymiad i gynaliadwyedd."
- "Rydyn ni'n credu y dylai ymrwymiad i gyfrifoldeb byd-eang gynnwys ymrwymadau i gynaliadwyedd amgylcheddol, lleihau'r newid yn yr hinsawdd a chynhyrchu bwyd a

diod o safon uchel. Mae sector bwyd a diod Cymru eisoes wedi ymrwymo i'r camau hyn ac yn datblygu o hyd, a byddai cydnabod ac amlygu hyn ar raddfa fyd-eang o fudd mawr i ddelwedd Cymru yn fyd-eang.”

Mae'r cwestiwn hwn yn cwmpasu dau faes unigryw: datblygiad rhyngwladol a thwristiaeth gynaliadwy. Mae'r ymatebion i'r naill faes a'r llall wedi'u crynhoi isod.

Datblygiad Rhyngwladol (Cymru o Blaid Affrica):

Cafwyd cais am weithgarwch ychwanegol gan Lywodraeth Cymru o ran ei gwaith datblygu rhyngwladol, yn enwedig y rhaglen bresennol Cymru o Blaid Affrica. Gwnaeth rhai ymatebwyr gymariaethau â gwaith datblygu rhyngwladol yr Alban, ac nid oeddent yn ffafriol.

Ar y cyfan, croesawyd gwaith y rhaglen Cymru o Blaid Affrica, ynghyd â'i hail-frandio fel 'Cymru ac Affrica' i adlewyrchu dull partneriaeth. Fodd bynnag, roedd y gefnogaeth dros ganolbwyntio gweithgarwch y rhaglen ar Lesotho ac Uganda yn gymysg, gyda rhai ymatebwyr yn cefnogi'r uchelgais hon gan ei bod yn canolbwyntio'r gweithgarwch ac yn cyflawni mwy; dywedodd ymatebwyr eraill ei fod yn cyfleu neges negyddol i'r gwledydd hynny nas enwyd a'r sefydliadau o Gymru sy'n gweithio yn y gwledydd hyn.

- “Rwy'n hapus â'r ffocws ar Lesotho ac Uganda. Mae canolbwyntio ar wlad fach yn ei gwneud hi'n haws i ymyriadau gael effaith fwy pellgyrhaeddol a chenedlaethol, hyd yn oed gydag adnoddau cyfyngedig.”
- “Mewn gweledigaeth ar gyfer Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang, byddai'n anfanteisiol i Lywodraeth Cymru allgáu gwledydd Affrica lle mae sefydliadau o Gymru yn gweithio. Rwy'n teimlo'n gryf y byddai'n gryfach yn strategol i Lywodraeth Cymru groesawu, hyrwyddo a phwysleisio'r holl waith mae grwpiau, sefydliadau, prifysgolion a byrddau iechyd o Gymru yn ei wneud ledled Affrica, yn hytrach nag allgáu'r gwaith hwn trwy ganolbwyntio ar ddwy wlad yn unig.”
- “Rydym yn croesawu'r ymrwymiad i ehangu gwaith y rhaglen Cymru o Blaid Affrica hefyd ac i roi lle canolog i rymuso menywod yn y gwaith hwnnw.”
- “Nid dim ond Cymru o Blaid Affrica a byrddau iechyd fydd yn arddangos ymrwymiad fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Mae prifysgolion, grwpiau diaspora yng Nghymru, mentrau cymdeithasol a mwy yn hyrwyddo Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang sydd wedi ymrwymo i gynaliadwyedd economaidd, iechyd amgylcheddol.”
- “Dylai Llywodraeth Cymru osod y safonau a chyhoeddi siarter sy'n amlinellu'r arfer gorau o ran lleihau'r effaith mae datblygu rhyngwladol a'r sector ehangach yn ei chael ar y newid yn yr hinsawdd.”

Twristiaeth Gynaliadwy

Roedd y sylwadau ar yr ymrwymiad i gefnogi twristiaeth gynaliadwy yn gadarnhaol ar y cyfan. Fodd bynnag, yn unol â thema gyffredinol yr ymatebion i'r bennod hon, roedd yr ymatebwyr yn teimlo y gellid gwneud mwy i ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach a hyrwyddo cynnig Cymru. Yn ogystal, nodwyd rôl y Gymraeg o ran hyrwyddo Cymru fel pwynt gwerthu allweddol, ochr yn ochr â'r dirwedd naturiol a digwyddiadau diwylliannol adnabyddus megis Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol.

- “Rydyn ni’n hapus i weld ymrwymiad i dwristiaeth gynaliadwy a safleoedd treftadaeth y byd UNESCO Cymru, ac rydyn ni’n cytuno bod gan Gymru lawer i’w gynnig fel cenedl hardd ac amrywiol. Yn yr adran ‘lle’, hoffem weld cydnabyddiaeth i ymrwymiad i warchod bioamrywiaeth Cymru.”
- “Rydyn ni’n cefnogi’r bwriad i wella twristiaeth ryngwladol (gyda marchnadoedd datblygol), a dylen ni fod yn ceisio cynyddu ein capasiti amlieithog i groesawu grwpiau amrywiol o ymwelwyr.”

Ymateb Llywodraeth Cymru a’r Camau Nesaf

Hoffai Llywodraeth Cymru fachu ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a roddodd o’u hamser i ymateb i’r ymgynghoriad ac am eu barn ar uchelgeisiau rhyngwladol Cymru i’r dyfodol. Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch hefyd i bawb a fu’n rhan o’r trafodaethau ar y ddogfen ddrafft cyn ei chyhoeddi.

Mae’r canlyniadau wedi’u dadansoddi, a defnyddir yr ymatebion i lywio’r ddogfen Strategaeth Ryngwladol derfynol a gyhoeddir maes o law.

Atodiad A

Cafwyd ymatebion gan y sefydliadau canlynol:

Fforwm Awyrofod Cymru
Airbus
Amgueddfa Cymru
Pentref Eco Brecon View
British Council Cymru
British Film Institute
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Prifysgol Caerdydd
Colegau Cymru
Comisiynydd y Gymraeg
Gemau'r Gymanwlad Cymru
Community Carbon Link
Sefydliad Cymunedol yng Nghymru
Cymru Masnach Deg
Dolen Cymru
Disasters Emergency Committee Cymru
Eisteddfod Genedlaethol Cymru
Tŷ Gwledig Elm Grove
Elrha
Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB)
Ffilm Cymru Wales
Canolfan Ffilm Cymru
Food Adventure Ltd
Gemau Cymru
Glandŵr Cymru
Tyfu Canolbarth Cymru
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)
Grŵp Trawsbleidiol Cymru Rhyngwladol
Hub Cymru Affrica
Grŵp Rhanddeiliaid Hawliau Dynol (HRSG)
Hybu Cig Cymru (HCC)
i2LResearch
Diwydiannau Cymru
Cyngor Cyngorol Cymru ar Arloesi
Cymdeithas Ddysgedig Cymru
Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen
Llenyddiaeth Cymru
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Mercator Rhyngwladol (yn cynnwys Cyfnewidfa Lên Cymru a Llenyddiaeth ar draws Ffiniau)
Nataim UK Ltd
Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru
NoFit State Circus

Oxfam Cymru
Peter Snowball Consultancy Ltd
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru
S4C
Siambrau Masnach De a Chanolbarth Cymru
South People's Projects (SOPPRO)
Chwaraeon Cymru
Coleg Dewi Sant
Panel Cyngori Is-Sahara
Prifysgol Abertawe
Trydan cyf
TUC
United Purpose
Prifysgolion Cymru
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Cymru
Yr Urdd
Celfyddydau Rhyngwladol Cymru / Cyngor Celfyddydau Cymru
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru o Blaid Affrica
Fforwm Busnes Cymru Ffrainc
Canolfan y Mileniwm
Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru
Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru
Addysg Uwch Cymru Brwsel
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam

Yn ogystal, cafwyd 42 o ymatebion pellach gan aelodau'r cyhoedd fel unigolion a gan sefydliadau a oedd eisiau bod yn ddiennw.